# DAVIES, JOHN (1795 - 1861), offeiriad ac athronydd

**Enw:** John Davies
**Dyddiad geni:** 1795
**Dyddiad marw:** 1861
**Plentyn:** Sarah Emily Davies
**Plentyn:** John Llewelyn Davies
**Rhiant:** Jane Davies
**Rhiant:** John Davies
**Rhyw:** Gwryw
**Galwedigaeth:** offeiriad ac athronydd
**Maes gweithgaredd:** Crefydd; Ysgolheictod ac Ieithoedd
**Awdur:** John Williams James

Ganwyd yn Llanddewi-brefi, Rhagfyr 1795, mab John a Jane Davies, Hendre Phylip. Bu'n ddisgybl i Eliezer Williams, mab Peter Williams, yn Llanbedr-Pont-Steffan, ac aeth i Goleg Queens ', Caergrawnt, yn 1820 (B.D. 1831, D.D. 1844). Cafodd ei ordeinio yn Norwich a'i ddewis yn rheithor S. Pancras, Chichester; yn 1840 fe'i ceir yn rheithor Gateshead, swydd Durham, a meistr ' King James's Hospital,' Durham. Yn 1853 fe'i gwnaethpwyd yn ganon mygedol Durham. Ymddiswyddodd yn 1860 a bu farw 21 Hydref 1861 yn Ilkeley Wells, sir Gaerefrog.

Ysgrifennodd yn helaeth. Ymysg ei gyhoeddiadau y mae (*a*) *Essay on the Old and New Testaments*, 1843, (*b*) *The Ordinances of Religion*, (*c*) *First Impressions - a description of Swiss and French scenery*, (*d*) *The Cultivation of the Mind*, a (*e*) ei waith mwyaf a phwysicaf, *The Estimate of the Human Mind*, 1828, ail arg. yn 1847.

Haedda dau o'i blant gyfeirio atynt: SARAH EMILY DAVIES (1830 - 1921), sefydlydd Coleg Girton, i ferched, yng Nghaergrawnt; a JOHN LLEWELYN DAVIES (1826 - 1916), cymrawd o Goleg y Drindod, Caergrawnt, ' Hulsean Lecturer ' yn y brifysgol honno, ' Lady Margaret Preacher ' yn Rhydychen, yntau hefyd yn pwysleisio pwysigrwydd cwestiwn addysg uwch i ferched, a chyfaill Frederick Denison Maurice; y mae'n adnabyddus iawn fel cyd-gyfieithydd *Gwladwriaeth* Platon.

## Awdur

**Y Canghellor John Williams James**

## Ffynonellau


*Alumni Cantabrigienses*, ii

H. Blackwell, NLW MSS 9252A: A Dictionary of Welsh Biography


## Dolenni Ychwanegol

VIAF: 297805678

Wikidata: Q20733377


**Dyddiad cyhoeddi:** 1953



**Hawlfraint Erthygl:** http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu